Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Beulah
# Beulah
# Castell Newydd Emlyn
# Ceredigion
# SA38 9QB

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Beulah yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Beulah ger tref Castell Newydd Emlyn yng Ngheredigion.

Darpara'r ysgol addysg ar gyfer disgyblion rhwng pedair ac un ar ddeg oed. Mae 25 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn llawn amser ar ddechrau Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae gan 24% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim, sydd ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol. Mae 35% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol. Daw 92% o'r disgyblion o gartrefi lle na siaredir Cymraeg.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2007.

Mae'r pennaeth cysylltiol dros dro, sydd hefyd â chyfrifoldeb am dair ysgol arall, wedi bod yn ei swydd ers Medi 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Beulah yn 2013-2014 yw £6,016. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £9,062 a'r lleiafswm yw £3,119. Mae Ysgol Gynradd Beulah yn safle'r seithfed o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn a chyson ar draws y cwricwlwm;
- bod safonau medrau meddwl a datrys problemau llawer o ddisgyblion yn dda;
- bod yr ysgol yn gymdeithas glos, gynnes a chynhwysol sy'n cynnig gofal arbennig i'w disgyblion;
- bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sydd yn ennyn diddordeb ac yn ymateb i anghenion llawer o ddisgyblion;
- bod iechyd a lles y disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol; a
- bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson a pharhaus.

Serch hyn:

- nid yw llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi gwneud digon o gynnydd ym medrau darllen ac ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith;
- nid yw'r broses olrhain cynnydd disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen at ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi ei sefydlu yn ddigon effeithiol; ac
- mae cyflwyniad gwaith a llawysgrifen y mwyafrif o ddisgyblion yn flêr ac yn ddi-raen.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod y pennaeth cysylltiol yn rhoi arweiniad clir a chadarn i'r ysgol trwy bennu disgwyliadau uchel;
- bod y pennaeth cysylltiol wedi pennu agweddau pwysig ar gyfer gwella, gyda'r staff wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau parhaus;
- bod yr ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ystod o bartneriaid mewn perthynas â phrofiadau cwricwlaidd a hyrwyddo lles y disgyblion; a
- bod yr ymrwymiad cryf i gydweithio gydag ysgolion eraill mewn perthynas â chodi safonau llythrennedd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Serch hyn:

- nid yw adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn cynnig darlun cywir o ansawdd yr addysgu a chyflawniad y disgyblion;

- nid yw'r llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn ddigon effeithiol;
- nid yw cynllunio'r athrawon yn rhoi digon o sylw i holl agweddau'r cwricwlwm; a
- nid yw rhaglen fonitro fewnol yr ysgol yn rhoi digon o sylw i dystiolaeth uniongyrchol mewn perthynas ag addysgu a dysgu.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2

A2 Adeiladu ar y gwelliant diweddar yn y cynllunio ar gyfer dilyniant yn y medrau

A3 Sicrhau defnydd mwy effeithiol o strategaethau asesu ac olrhain cynnydd

A4 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr er mwyn eu galluogi i fonitro a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

A5 Cryfhau systemau hunan arfarnu’r r ysgol yn enwedig trefniadau arsylwi gwersi a monitro gwaith disgyblion

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gynradd Beulah yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd Ysgol Gynradd Beulah.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau Cymraeg llafar y disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae llawer yn hyderus wrth drafod eu gwaith ar draws ystod o bynciau, gan ddefnyddio geirfa eang. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau oedolion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r mwyafrif yn siarad yn gywir yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol, er mai ychydig o ddisgyblion sydd yn siarad yn estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau darllen ac yn gwneud hynny yn hyderus ac ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen gyda rhugldер ac mae ychydig yn newid goslef y llais yn effeithiol. Serch hyn, nid oes digon o her yn y deunydd darllen ac ychydig yn unig sydd yn troi at lyfr o'u gwirfodd i'w fwynhau. Dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n gallu siarad am eu hoff lyfrau neu awduron, neu sy'n darllen yn rheolaidd ac yn eang. Mae llawer yn defnyddio strategaethau darllen yn llwyddiannus i ddarganfod gwybodaeth wrth ymchwilio. O ganlyniad, mae medrau trawsieithu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hysgrifennu. Mae bron yr holl ddisgyblion yn ysgrifennu i ystod eang o ddibenion gyda hyder cynyddol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion estynedig, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi. Fodd bynnag, mae cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen y mwyafrif yn flêr ac yn ddi-raen.

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gwnaeth y mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gynnydd annigonol o ran datblygu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith. O ganlyniad, mae tystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion yn dangos nad yw mwyafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Serch hyn, yn ddiweddar mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn cynhyrchu gwaith o safon llawer mwy heriol. Er nad yw'r gwelliant yma mewn safonau ysgrifennu i'w weld eto ar draws y cwricwlwm, mae llawer o'r disgyblion bellach yn strwythuro'u hysgrifennu'n fwy effeithiol ac yn ysgrifennu mewn arddulliau gwahanol. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion yn unig sydd yn arddangos medrau ysgrifennu estynedig. Yn gyffredinol, mae medrau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn wan.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg gan gymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ac yn gyson. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn adnabod, trefnu a defnyddio darnau arian yn hyderus ac yn defnyddio geirfa addas i ddisgrifio siapiau 2D a 3D. Mae medrau rhif y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda o oedran cynnar.

Mae llawer o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn casglu, dehongli a chyflwyno data perthnasol mewn pynciau a meysydd dysgu gwahanol yn effeithiol. Mae’r mwyafrif yn datblygu strategaethau cadarn ar gyfer amcangyfrif a chyfrifo yn y pen wrth ymgymryd â gweithgareddau mwy heriol. Mae safonau medrau meddwl a datrys problemau llawer o ddisgyblion yn dda ac maent yn cymhwyso’r rhain yn briodol i sefyllfaoedd newydd.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol.

Oherwydd y nifer fach o ddisgyblion yn aml ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon yn ofalus.

Mae cyflawniadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn debyg i gyfartaledd y teulu ym mhob maes dysgu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Serch hyn, mae perfformiad y disgyblion mewn sgiliau iaith, cyfathrebu a llythrennedd yn ogystal â’r dangosydd Cyfnod Sylfaen wedi disgyn yn 2013. Mae cyflawniad y disgyblion ar y deilliant uwch (Deilliant 6) yn sylweddol uwch na chyfartaleddau’r teulu ym mhob maes dysgu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae perfformiad yr ysgol yn ei gosod ymhlith y 50% uwch neu’r 25% uchaf ym mwyafrif y dangosyddion dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn gyffredinol, mae cyflawniad y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn gadarn dros y pedair blynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaleddau’r teulu ym mhob pwnc. Mae’r canran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y tu hwnt i’r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) dros gyfnod, yn debyg neu’n uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu ym mhob pwnc am y pedair blynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion â lefel debyg o ginio am ddim, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi ei gosod yn y 25% uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf ac yn y 50% uwch neu’r 25% uchaf ar y lefelau uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo yn hapus a diogel tra maent yn yr ysgol ac yn deall yr hyn i’w wneud os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae’r rhan fwyaf yn gwerthfawrogi'r berthynas agos iawn sydd ganddynt â staff, yn seiliedig ar yr egwyddor bod pob unigolyn yn aelod cyflawn o deulu’r ysgol. Gall mwyafrif o’r disgyblion egluro pwysigrwydd ffordd o fyw sydd yn iach a’r hyn sydd angen gwneud i fod yn iach.

Mae’r holl ddisgyblion yn gwrtais ac mae ymddygiad y plant yn ystod y gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn dda. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cymryd cyfrifoldeb ac yn gwneud penderfyniadau sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Yn ddiweddar, mae gallu llawer ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i weithio’n annibynnol a gwneud dewisiadau am eu dysgu yn datblygu’n briodol.

Mae presenoldeb yn anwastad dros gyfnod ond wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran lefelau cinio am ddim yn nwy or tair blynedd ddiwethaf.

Mae bron pob disgybl yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau, gan ddangos parch at safbwyntiau eraill wrth iddynt rannu syniadau. Maent yn awyddus i gefnogi ei gilydd ac mae disgyblion hŷn yn aml yn mynd allan o'u ffordd i helpu disgyblion iau.

Trwy ystod o weithgareddau symbylus, sydd yn aml yn cael eu rhannu gyda disgyblion o ysgolion cyfagos, mae’r disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a medrau bywyd.

Mae’r cyngor ysgol yn frwdfrydig. Caiff eu safbwyntiau eu gwerthfawrogi ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis amgylchedd yr ysgol, adnoddau a datblygu strwythur marcio’r ysgol. Mae eu gwaith cydwybodol wedi cael dylanwad positif ar safonau lles y disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys profiadau a themau amrywiol a diddorol sydd â ffocws clir ar ddatblygu dysgwyr annibynnol. Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn darparu gweithgareddau byrlymus sy’n tanio chwilfrydedd y disgyblion.

Mae cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws pob agwedd o’r cwricwlwm. O ganlyniad i ffocws diweddar, mae cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o’r angen i ofalu am yr amgylchedd. Mae cyfnodau o addoli ar y cyd yn darparu cyfleoedd cyfoethog er mwyn ystyried materion sydd yn ymwneud â chariad, tegwch, diolchgarwch ac anghydraddoldeb.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig ei datblygu’n gadarn ar hyd yr ysgol.

Mae ymweliadau addysgiadol tymhorol â mannau megis Chastell Carew a chymryd rhan yn niwrnod Affricanaidd Coleg Llanbed, yn sicrhau dealltwriaeth bellach o’r diwylliant lleol a’r byd ehangach. Caiff y disgyblion gyfleoedd estynedig yn y gwersi i ddarganfod am ddiwylliannau gwahanol ac i gael profiadau o fywyd mewn gwledydd eraill. Mae’r profiadau hyn yn eu cynorthwyo i barchu ac i ddeall gwahanol traddodiadau, celfyddydau a ffyrdd o fyw.

Mae’r ddarpariaeth allgyrsiol fel Yr Urdd a’r clwb rhedeg yn cael ei chynnig i holl ystodau oed amrywiol yr ysgol ac mae’n cael effaith gadarnhaol ar safonau lles y disgyblion.

## Addysgu: Digonol

Mae gan yr athrawon berthynas gadarnhaol a gofalgar gyda’r disgyblion.

Mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol wedi llesteirio datblygiad llawer o ddisgyblion i ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig. Serch hynny, yn ddiweddar, mae gweithgareddau dysgu yn cynnig her briodol yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mae’r athrawon yn awr yn gwahaniaethu’n addas i ddiwallu anghenion yr ystod oed a gallu yn effeithiol. Trwy ddefnyddio cwestiynu agored treiddgar yn gyson, mae’r disgyblion yn datblygu medrau meddwl er mwyn atgyfnerthu’r profiadau dysgu.

Mae athrawon yn asesu agweddau penodol o ddatblygiad disgyblion yn gyson. Fodd bynnag, nid yw’r deilliannau hyn yn cael eu defnyddio’n ddigon effeithiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn natblygiad pob disgybl. Nid yw’r broses o olrhain cynnydd disgyblion o’r Cyfnod Sylfaen at ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ddigon effeithiol.

Derbynia’r disgyblion adborth llafar adeiladol ar eu hymdrechion. Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion yn cael ei farcio’n rheolaidd, ac yn ddiweddar, mae sylwadau athrawon yn dangos yr hyn sydd angen gwneud i wella. Mae athrawon yn cychwyn darparu cyfleoedd i alluogi disgyblion i drafod nodweddion da eu gwaith ynghyd â’r hyn y gallent wneud i wella. Mae cyfleoedd i ddisgyblion i adolygu eu gwaith eu hunain yn datblygu’n briodol yn y pynciau craidd. Serch hyn, prin yw’r cyfloedd iddynt adolygu gwaith eu cyfoedion. Nid yw’r broses o osod a monitro targedau personol ar gyfer disgyblon wedi ei wreiddio eto ar draws yr ysgol.

Mae’r adroddiadau a gyflwynir i’r rhieni yn cynnig gwybodaeth glir am gynnydd eu plant ac maent yn bodloni gofynion statudol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a chynhaliol lle mae meithrin tegwch a gwerthoedd moesol a chymdeithasol y disgyblion wedi ei wreiddio ym mywyd yr ysgol. Mae darpariaeth effeithiol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion drwy weithgareddau megis ymarfer corff boreol ac egwyddorion chwarae’n deg. Caiff manteision byw, yfed a bwyta’n iach eu hannog yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae gweithdrefnau llwyddiannus yn sicrhau bod y disgyblion yn meithrin parch ac yn teimlo’n ddiogel yng nghymuned yr ysgol. Mae hyn yn cael ei fodelu yn llwyddiannus gan holl staff yr ysgol.

Mae’r ysgol yn adnabod anghenion y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar trwy gynnal asesiadau sylfaen trylwyr. Mae effeithiolrwydd y trefniadau ymyrraeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion mwy abl, yn gynhwysfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau’r disgyblion hynny. Mae gan y disgyblion gynlluniau addysg unigol addas sy’n cael eu rhannu gyda’r rhieni a’u hadolygu’n gyson.

Mae sesiynau amser cylch yn cael eu darparu’n effeithiol. Maent yn rhan annatod o weithgarwch y dosbarth ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles y disgyblion.

Mae cyfnodau 'munud i feddwl' a gwasanaethau addoli yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion, eu datblygiad ysbrydol yn ogystal ag ethos yr ysgol.
Mae cyfundrefnau'r ysgol dros amser i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r pennaeth cysylltiol a'r staff yn talu sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb ymysg y disgyblion. Trwy weithgareddau cyfoethog, mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd cynaladwyedd o fewn eu cymuned.

Oherwydd niferoedd bach y disgyblion, trefnir rhai gweithgareddau drwy gydweithio'n effeithiol gyda'r gymuned ac ysgolion cyfagos. Mae hyn yn sicrhau mynediad llawn i holl agweddau'r cwricwlwm.

Er bod yr adeilad yn gyfyng, mae'n cael ei gynnal a'i gadw yn dda. Mae'r corff llywodraethol a'r staff wedi datblygu'r adeilad i fod yn lle deniadol a diogel. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r gwagleoedd prin sydd ar gael i addysgu grwpiau ffocws ac i greu arddangosfeydd lliwgar a phwrpasol sy'n cefnogi'r dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o'r cae cymunedol cyfagos sydd ar gael i'r ysgol. Mae'r ardal goedwig yn arbennig, yn adnodd gwerthfawr sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan y staff er mwyn cynnig profiadau diddorol ac ysgogol iawn i'r disgyblion.

Mae ystod dda o offer ac adnoddau addas yn ardaloedd allanol y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu yn briodol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn y cyfnod byr iawn ers penodi'r pennaeth cysylltiol, mae wedi llwyddo i roi arweiniad clir i'r ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth gadarn. Mae trefniadau diweddar, sy'n canolbwyntio ar godi safonau gwaith disgyblion a mireinio sustemau sicrhau gwelliant wedi cychwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae cyfarfodydd staff yn awr yn rhoi sylw priodol i godi safonau a thrafod blaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae ymrwymiad o'r newydd ar draws yr ysgol i ddeall, datblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus er mwyn codi safonau. Mae pob aelod bellach yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cychwyn ysgwyddo eu cyfrifoldebau yn gydwybodol.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth cysylltiol ynglŷn â rhediad cyffredinol yr ysgol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o berfformiad yr ysgol er mwyn gosod cyfeiriad strategol a chlir. Er bod eu dealltwriaeth o flaenoriaethau'r ysgol yn datblygu, nid

ydynt yn cynllunio'n ddigon manwl ar gyfer gwelliant trwy wirio cynnydd yn erbyn deilliannau. Maent wedi dechrau defnyddio dadansoddiadau data'r ysgol i drafod perfformiad yr ysgol. Serch hyn, nid ydynt yn derbyn gwybodaeth ddigon manwl ar ddysgu ac addysgu er mwyn herio'r ysgol yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen fanwl sy'n gwneud defnydd priodol o ddadansoddiadau data. Mae'r meysydd i'w datblygu'n cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol, megis amcanion i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Nid oes gan yr ysgol drefniadau ffurfiol ar gyfer casglu a dadansoddi barn llywodraethwyr, disgyblion a rhieni yn rheolaidd.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n manylu ar strategaethau addas er mwyn sicrhau gwelliannau. Mae'r pennaeth cysylltiol wedi pennu cyfrifoldebau penodol, dangosyddion llwyddiant, ynghyd â therfynau amser penodol a'r costau.

Mae dealltwriaeth y pennaeth cysylltiol a'r staff dysgu o gryfderau a gwendidau'r ysgol yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid oes gan holl staff rôl ddigon cyflawn yn y broses o fonitro safonau ar hyn o bryd. Nid yw rhaglen monitro fewnol yr ysgol yn rhoi digon o sylw i dystiolaeth uniongyrchol mewn perthynas ag addysgu a dysgu ac nid yw'r canfyddiadau'n ffocysu'n ddigonol ar ddeilliannau ar gyfer gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol da sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion a phrofiadau dysgu gwerthfawr. Mae yna berthynas gref yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni a chyfeillion. Mae darpariaeth rhaglenni llythrennedd teulu yn cynorthwyo'r rhieni i gefnogi addysg eu plant, meithrin medrau dwyieithog y disgyblion a gweithgareddau darllen ar y cyd. Mae cyllid sylweddol yn cael ei gyfrannu gan rieni ar gyfer prynu adnoddau ac offer ychwanegol.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r cylch meithrin sy'n cyfarfod yn yr ysgol. Trwy rannu themâu a chyd gynllunio, mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym adeg dechrau yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus iawn gyda'r ysgolion uwchradd lleol ac mae trefniadau pontio effeithiol ac ymweliadau staff yn sicrhau trosglwyddo esmwyth. Cydweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ysgolion clwstwr a'r ysgolion uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod addysg i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae partneriaethau llewyrchus ynghyd â chydweithio cyson gydag ysgolion cynradd cyfagos yn cael effaith cadarn ar godi safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda'r gymuned leol drwy gynnal gwasanaethau a chyngherddau. Mae'r ysgol yn cynllunio rhaglen symbylus o ymweliadau ac ymwelwyr.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli cyllideb cadarn ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol

Mae staff ac adnoddau ariannol yn cael eu rheoli a'u defnyddio i gefnogi a gwella dysgu. Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n dda. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chymhorthyddion dysgu. Mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn cyfrannu'n briodol at godi safonau drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned dysgu broffesiynol sy'n galluogi staff i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gefnogi addysgu. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

O ystyried safonau disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Oherwydd y nifer fechan o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae'n rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal. Gall canlyniad un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Mae cyflawniadau'r disgyblion ym maes sgiliau iaith, cyfathrebu a llythrennedd yn ogystal â'r dangosydd Cyfnod Sylfaen wedi disgyn yn 2013. Serch hyn, mae cyflawniad disgwyliedig y disgyblion (deilliant 5) yn parhau yn uwch na chyfartaledd y teulu ym mhob maes. Yn 2013, o'u cymharu gydag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 50% isaf mewn sgiliau iaith, cyfathrebu a llythrennedd ac yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae cyflawniad y disgyblion ar y deilliant uwch (Deilliant 6) yn y Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ym mhob maes dysgu. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ym mhob maes.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu ym mhob pwnc dros y pedair blynedd ddiwethaf. O gymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn y 25% uchaf ym mhob pwnc dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae canran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a gyflawnodd uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu ym mhob pwnc dros y pedair blynedd ddiwethaf. Nid yw cyrhaeddiad yn y Gymraeg cystal â gweddill y pynciau am y ddwy blynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol ymysg y 25% uchaf yng Nghymru yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% uchaf mewn Cymraeg am y ddwy flynedd ddiwethaf.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 14 | 14<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 14 | 11<br>79%<br>92% | 3<br>21%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 14 | 13<br>93%<br>97% | 1<br>7%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 14 | 14<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 14 | 12<br>86%<br>96% | 2<br>14%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 14 | 14<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 14 | 13<br>93%<br>99% | 1<br>7%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 14 | 12<br>86%<br>98% | 2<br>14%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 14 | 13<br>93%<br>91% | 1<br>7%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 14 | 11<br>79%<br>95% | 3<br>21%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 14 | 8<br>57%<br>78% | 6<br>43%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well | 14 | 8 | 6 | Mae bron pob un o'r plant yn |

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Cytuno Agree | Anghytuno Disagree | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| at playtime and lunch time | | | | 57% | 43% | | ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | | 84% | 16% | | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf Strongly Agree | Cytuno Agree | Anghytuno Disagree | Anghytuno'n gryf Strongly disagree | Ddim yn gwybod Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 9 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 69% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child’s progress. | 13 | 9<br>69% | 4<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 10<br>77% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school’s procedure for dealing with complaints. | 13 | 9<br>69% | 4<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 13 | 10<br>77% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 13 | 8<br>62% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 11<br>85% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 11<br>85% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Ruth Elaine Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Judith Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mair Potter | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.